Urdd

# Urdd Gobaith Cymru yn cyhoeddi camau mawr oherwydd Coronafeirws

Oherwydd y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran Coronafeirws, mae Urdd Gobaith Cymru yn cymryd y camau canlynol er mwyn iechyd a lles aelodau, staff a gwirfoddolwyr.

Bydd yr Urdd yn:

- Cau ei dri gwersyll (Llangrannog, Caerdydd a Glan-llyn) i holl weithgareddau preswyl o ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 nes bydd rhybudd pellach

- Canslo holl Eisteddfodau lleol a rhanbarthol

- Gohirio Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych tan 2021

- Canslo pob cystadleuaeth chwaraeon cenedlaethol

- Canslo pob gweithgaredd cymunedol nes bydd rhybudd pellach

Bydd Eisteddfod yr Urdd nawr yn cael ei chynnal yn Sir Ddinbych ym mis Mai 2021 ac mae'r Urdd yn trafod yn barhaus gyda'i bartneriaid darlledu, S4C a BBC Radio Cymru, o ran opsiynau i ddathlu doniau'r aelodau ar blatfform gwahanol yn 2020.

Mae canslo digwyddiadau mawr a chau'r gwersylloedd yn naturiol yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol i'r Urdd ac mae amcangyfrif cychwynnol yn awgrymu bydd ergyd ariannol o bron i £4 miliwn yn dilyn cyhoeddiadau heddiw.

Mae'r Urdd yn trafod gyda'i holl bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr effaith sylweddol y bydd y sefyllfa bresennol yn ei chael ar yr mudiad, ei weithlu o 320 ac ar bobl ifanc a phlant Cymru.

Dywedodd Prif Weithredwr yr Urdd, Siân Lewis: “Mae'n siom enbyd i ni i gyd orfod cau ein gwersylloedd a chanslo ein digwyddiadau, ond mae diogelwch a lles ein staff, ein aelodau a'n cefnogwyr yn flaenoriaeth llwyr. Ein bwriad nawr yw mynd ati i ddiogelu'r mudiad trwy gynllunio dyfodol cynaliadwy a defnyddio ein egni, ein ymrwymiad a'n gwerthoedd i helpu Cymru i ymdopi â'r argyfwng hwn.

“Bydd y mudiad, a ffurfiwyd bron i ganrif yn ôl ar egwyddorion o ymrwymiad cadarn i Gymru a chyd-ddyn, yn trafod y sefyllfa bresennol gyda Gweinidogion y Llywodraeth a hefyd yn edrych ar sut y gellid defnyddio'r Urdd a'i staff i ymateb i'r heriau cynyddol sy'n wynebu'r henoed a'r bregus yng Nghymru yn nghysgod y feirws hwn.”

Mae'r Urdd mewn cysylltiad uniongyrchol â'i holl randdeiliaid ynglŷn â'r sefyllfa a byddwn yn diweddaru'n syth a mor rheolaidd a phosib os oes unrhyw ddatblygiadau pellach.

Os oes gennych ymholiad penodol dyma'r manylion cyswllt:

eisteddfod@urdd.org

chwaraeon@urdd.org

llangrannog@urdd.org

glan-llyn@urdd.org

caerdydd@urdd.org

Neu am ymholiad cyffredinol cysylltwch a helo@urdd.org

# Urdd Gobaith Cymru announces major steps to deal with Coronavirus situation

Due to the current situation in Wales regarding the Coronavirus, Urdd Gobaith Cymru has made the following decisions for the health and wellbeing of its members, staff and volunteers.

The Urdd will:

- Close all three of its residential centres (Llangrannog, Cardiff and Glan-llyn) to all residential activities from Friday 20 March 2020 until further notice
- Cancel all local & regional Eisteddfodau
- Postpone the National Urdd Eisteddfod in Denbighshire until 2021
- Cancel all national sports competitions
- Cancel all community activities until further notice

The National Urdd Eisteddfod will now be held in Denbighshire in May 2021 and the Urdd is in continuous discussion with its broadcasting partners, S4C and BBC Radio Cymru, regarding the options around celebrating Urdd members' talents on a different platform in 2020.

Cancelling major events and closing residential centres clearly present significant financial challenges to the Urdd and initial estimates suggest a financial hit of nearly £4 million from the measures announced today.

Th Urdd is in discussion with all its partners including the Welsh Government regarding the huge impact the current situation will have on the Urdd, its workforce of 320 and the young people and children of Wales.

Urdd Chief Executive Siân Lewis said: "It's hugely disappointing for all involved to have to close our centres and cancel our events, but the safety and wellbeing of our staff, members and supporters is paramount. Our aim now is to safeguard the organisation through planning

a sustainable future and utilising our energy, commitment and values to help Wales cope with this crisis.

“The movement, formed nearly a century ago with a firm commitment to Wales and wider humanity, will discuss the current situation with Government Ministers and also explore how the Urdd and its staff could best be deployed to meet the mounting challenges facing the elderly and most vulnerable in Wales.”

The Urdd is in direct contact with all its stakeholders regarding the situation and will be updating them on any developments as swiftly and frequently as possible.

If you have a specific enquiry the contact details are:

eisteddfod@urdd.org

chwaraeon@urdd.org

llangrannog@urdd.org

glan-llyn@urdd.org

caerdydd@urdd.org

Or if you have a general enquiry please contact helo@urdd.org

.